**Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**7 Mai 2021, 9:45 am**
**Lleoliad: Ystafell 3/7, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Kate Eden | (KE) | Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Gwelliant Cymru |
| Wayne Jepson | (WJ) | Arweinydd Gwasanaeth, Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth |
| Andrew Jones | (AJ) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus (cyrhaeddodd am 10am) |
| Eleri Lloyd Burns | (ELB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Ansawdd a Nyrsio |
| John Lawson | (JL) | Prif Swyddog Risgiau a Phennaeth Llywodraethu Gwybodaeth |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd ochr y staff |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Richard Hayward | (RH) | Rheolwr Cysylltiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 9:45am*

**QSIC / 2021 Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Agorodd KE y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd KE fod hwn yn gyfarfod i drafod un eitem, sef y Strategaeth Ddrafft Ansawdd a Gwella.

Nododd KE, oherwydd yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19 a'r canllawiau cenedlaethol a oedd ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol.

**QSIC / 2021 Datgan Buddiannau**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

**QSIC / 2021 Strategaeth Ddrafft Ansawdd a Gwella**

Derbyniodd y Pwyllgor y Strategaeth Ddrafft Ansawdd a Gwella (cyf 3 QSIC.070521), a gyflwynwyd gan RBW.

Tynnodd JB sylw at y canlynol:

- Ystyriaeth flaenorol yn sesiynau Datblygu'r Bwrdd mewn perthynas ag ansawdd a gwella ansawdd cyn COVID-19;
- Nododd y newidiadau polisi dros y pum mlynedd diwethaf yng Nghymru, a'r ffocws cynyddol ar ansawdd a rheoli ar gyfer ansawdd; fodd bynnag, y man cychwyn ar gyfer ymgorffori ansawdd oedd gwaith gwella ansawdd, y byddem wedyn yn adeiladu arno wrth i'r sefydliad ddatblygu capasiti a gallu i symud i'r cyfeiriad hwn;
- Pwysigrwydd galluogi'r amodau, y gallu a'r cysylltiadau cywir ar gyfer gwelliannau ar draws y system gyfan i weithio'n systematig ar draws y sefydliad.

Tynnodd RBW sylw at y canlynol:

- Amlinellodd mai diben y strategaeth oedd gweithredu fel galluogwr creiddiol i gefnogi Strategaeth gyffredinol 'Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru'; cefnogi creu'r amodau sefydliadol lle y gall ansawdd

a gwelliant ffynnu; a gweithredu fel map sefydliadol i fodloni gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).
- Roedd y Strategaeth yn gyd-ddibynnol ar strategaethau galluogi eraill gan gynnwys y 'Strategaeth Pobl' a'r 'Model Llywodraethu Integredig' a byddai'n cefnogi cynnydd pellach fel sefydliad sy'n perfformio'n dda;
- Gan fod cyd-ddibyniaeth rhwng y Strategaeth hon â strategaethau galluogi eraill, byddai dull integredig yn cael ei ddefnyddio i roi'r strategaeth hon ar waith. Y bwriad oedd datblygu cynllun gweithredu lefel uchel, gyda chynllun manylach ar gyfer y flwyddyn gyntaf, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law;
- Hysbyswyd y Pwyllgor am y Fframwaith Ansawdd ac Effaith a roddwyd ar waith yn flaenorol, lle y cyflawnwyd bron pob carreg filltir, ond bellach mae'n bryd symud i'r lefel aeddfedrwydd nesaf drwy ddatblygu a rhoi Strategaeth Ansawdd a Gwella newydd ar waith.
- Roedd datblygu’r Strategaeth hon yn adeiladu ar waith blaenorol cyn pandemig COVID-19, yn cynnwys sesiynau Datblygu’r Bwrdd ar ansawdd; ystyriaeth amlinellol o ansawdd a gwelliant yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd; gwaith i ddatblygu'r dull o weithredu'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu; a'r Strategaeth Ansawdd a Gwella. Roedd datblygu'r strategaeth yn gam pwysig wrth i'r sefydliad symud ymlaen i'r lefel aeddfedrwydd nesaf drwy'r strategaeth hon;
- Eglurhad bod hyn yn berthnasol i bob maes gweithgaredd iechyd cyhoeddus, ac nad oedd yn gyfyngedig i'r agweddau clinigol;
- Roedd y Strategaeth yn arwydd o fwriad y Bwrdd a'r Adran Weithredol i gryfhau ac ymgorffori gwella ansawdd ymhellach yn ein diwylliant sefydliadol;
- Enghraifft ddiweddar o welliant a chanlyniadau ansawdd llwyddiannus ar gyfer perfformiad Labordai mewn perthynas â phrofion COVID-19.
- Pwysigrwydd arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ansawdd drwy'r sefydliad cyfan, a'r angen i hyn gael ei arwain a'i hyrwyddo gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Bwrdd fel arweinwyr sefydliadol.

Diolchodd KE i RBW a JB am eu cyflwyniad.

Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:
- Roedd y pwyslais ar bwysigrwydd gwella ansawdd drwy'r sefydliad cyfan yn amlwg yn y strategaeth, a nodwyd ei bod yn amlwg yn y cyflwyniad nad oedd hyn yn gyfyngedig i leoliadau clinigol.
- Canolbwyntio ar sut rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu dull partneriaeth. Pwysleisiodd RBW y gyd-ddibyniaeth â'r ddogfen 'Ein Dull Ymgysylltu' a'r diffiniadau defnyddiol yn y ddogfen o ran yr hyn a olygir wrth ymgysylltu. Fel rhan o'r gwaith parhaus hwn, roedd cynllun gweithredu 'Ein Dull Ymgysylltu' yn amlinellu’r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddeall sut rydym yn gweithio orau â'n rhanddeiliaid a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau i'n swyddogaethau a'n gwasanaethau.
- Canmolwyd y ffocws ar ganlyniadau yn y strategaeth ddrafft drwyddi draw.

- Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys y crynodeb sydd ar ddiwedd y ddogfen ar y dechrau er mwyn rhoi trosolwg o'r negeseuon allweddol.
- Rhoddwyd eglurhad yn y cyflwyniad i'r Pwyllgor o gyd-ddibyniaethau'r strategaeth hon â dogfennau a strategaethau eraill, megis y Strategaeth Pobl a'r Model Llywodraethu Integredig. Awgrymwyd y dylid ystyried a ellid adlewyrchu hyn a'i wneud yn gliriach yn y strategaeth.
- Awgrymwyd y dylid adolygu'r crynodeb ar y diwedd i sicrhau cysondeb â'r dolenni at y pwyntiau bwled ar ddiwedd pob adran.
- Yr angen am drafodaeth fel sefydliad ynglŷn â sut rydym yn integreiddio nifer o strategaethau, er mwyn sicrhau bod pawb yn mynd i'r un cyfeiriad a bod y cyfeiriad hwnnw'n glir.
- O ran datblygu'r cynllun gweithredu, eglurodd JB y byddai'n cael ei ddatblygu ar ôl i'r arweinyddiaeth bennu'r cyfeiriad drwy gymeradwyo'r strategaeth hon. Ar ôl cymeradwyo'r strategaeth, byddai cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a'i adrodd i'r Pwyllgor. Eglurodd KE fod hyn wedi'i drefnu ar gyfer agenda'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2021.
- Awgrymwyd y dylid cryfhau pwysigrwydd elfennau arweinyddiaeth systemau yn y strategaeth.
- Gwnaeth VW sylw ar yr angen i roi'r dull ansawdd ar waith ledled y sefydliad, er mwyn sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal. Cytunodd RBW a nododd rôl yr hwb o ran galluogi hyn. O ran yr hwb, trafodwyd defnyddio hyrwyddwyr ledled y sefydliad i gynyddu capasiti a gallu, a chadarnhaodd JB fod hyn yn cael ei ystyried gan gynnwys symud staff i Gwelliant Cymru er mwyn creu'r capasiti hwn.
- Nododd JB yr angen am ddull sefydliadol tuag at ansawdd er mwyn cyflawni'r newid a amlinellir yn y strategaeth.

Diolchodd KE i bawb am eu cyfraniad i'r drafodaeth, ac aeth ati i grynhoi canlyniadau allweddol y drafodaeth:

- Pwysigrwydd sicrhau dull partneriaeth o gyflawni'r strategaeth, ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ac integreiddio hyn yn y broses weithredu.
- Adolygu'r crynodeb ar y diwedd i sicrhau cysondeb â'r dolenni at y pwyntiau bwled ar ddiwedd pob adran.
- Ystyried cynnwys crynodeb ar ddechrau'r ddogfen.
- Rhoi ystyriaeth bellach i bwysleisio arweinyddiaeth system yn y ddogfen drwyddi draw a phwysleisio rôl y Bwrdd wrth hyrwyddo'r gwaith hwn.
- Awgrymiadau y dylem fel sefydliad adolygu sut yr oeddem yn mynegi'r strategaethau a'r cynlluniau; sut y mae'r rhain yn integreiddio ac yn gweithio â'i gilydd ac, yn hollbwysig, yn cysylltu'n ôl â'r Strategaeth Hirdymor.

**Cytunodd** y Pwyllgor y dylid argymell y Strategaeth Ansawdd a Gwella i'r Bwrdd i'w chymeradwyo, gan nodi y byddai sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn y ddogfen ddrafft derfynol fel y bo'n briodol.

**Daeth y sesiwn agored i ben am 10:45**